

**CROESO I BWYLLGOR CYNLLUNIO  
CYNGOR SIR DDINBYCH**

**SUT Y CYNHELIR Y CYFARFOD  
Trefniadau rhithwir Mehefin 2020**

Oni bai bod Cadeirydd y Pwyllgor yn dweud yn wahanol, bydd trefn trafod y prif eitemau yn dilyn y rhaglen a nodir ar ddechrau'r adroddiad hwn.

**Cyflwyniad cyffredinol**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod am 9.30am ac yn croesawu pawb i'r Pwyllgor Cynllunio.

Bydd y Cadeirydd yn holi a oes unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau o gysylltiad.

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Swyddogion i roi cyflwyniad byr i'r materion sy'n berthnasol i'r cyfarfod.

Ble bo hynny'n briodol bydd Swyddogion yn nodi eitemau y cafwyd cais iddynt gael eu gohirio neu eu tynnu'n ôl, unrhyw adroddiadau arbennig ac unrhyw eitemau Rhan 2 lle gellir gwahardd y wasg a'r cyhoedd. Cyfeirir at wybodaeth ychwanegol cyn y cyfarfod, yn cynnwys sylwadau hwyr/taflenni crynhoi diwygiadau ('Taflenni Glas') ac unrhyw gynlluniau ategol neu ddiwygiedig yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried.

Mae'r Taflenni Glas yn cynnwys gwybodaeth bwysig, yn cynnwys crynodeb o'r deunydd a dderbyniwyd sy'n berthnasol i eitemau ar y rhaglen, rhwng cwblhau'r prif adroddiadau a'r diwrnod cyn y cyfarfod. Mae'r taflenni hefyd yn gosod trefn arfaethedig ceisiadau cynllunio.

Mewn perthynas â threfn eitemau, bydd disgwyl i unrhyw Aelodau sy'n dymuno gwneud cais bod eitem yn cael ei hystyried yn gynt wneud y fath gais ar unwaith ar ôl cyflwyniad y Swyddog. Rhaid gwneud unrhyw gais o'r fath fel cynnig ffurfiol a bydd yn destun pleidlais.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio'n cynnwys 19 Aelod etholedig. Yn unol â phrotocol, rhaid i 10 Aelod fod yn bresennol ar ddechrau trafodaeth ar eitem i wneud cworwm ac i ganiatáu cynnal y bleidlais.

Gall Aelodau'r Cyngor Sir nad ydynt wedi'u hethol ar y Pwyllgor Cynllunio ddod i'r cyfarfod a siarad am eitem, ond ni fyddant yn gallu gwneud cynnig i ganiatáu neu wrthod cais, na phleidleisio.

**YSTYRIED CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Y drefn i'w dilyn**

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r eitem sydd i gael sylw nesaf. Mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, cyfeirir at rif y cais, lleoliad y cais a'r sail drosto, yr Aelodau lleol perthnasol ar gyfer yr ardal ac argymhelliad y Swyddog.

Os bydd unrhyw Aelod o blaid cynnig gohirio eitem, yn cynnwys awdurdodi ymweliad â'r safle gan y Panel Arolygu Safle, dylid gwneud y cynnig hwnnw, gyda'r rheswm cynllunio drosto, cyn unrhyw siarad cyhoeddus neu ddadl dros yr eitem honno.

Lle bo'n berthnasol, bydd y Cadeirydd yn cynnig y cyfle i Aelodau ddarllen unrhyw wybodaeth hwyr am eitem ar y

'Taflenni Glas' cyn symud ymlaen.

Cyn unrhyw drafodaeth, gall y Cadeirydd wahodd Swyddogion i roi cyflwyniad byr am eitem os ystyrir y byddai hynny'n ddefnyddiol o safbwynt natur y cais. Yn ychwanegol gall Swyddogion ddarllen unrhyw araith a baratowyd gan barti â budd o blaid neu yn erbyn y cais. Bydd araith yn erbyn unrhyw gais yn cael ei darllen yn gyntaf.

Bydd y Cadeirydd yna'n cyhoeddi bod yr eitem yn agored i'w thrafod ac yn rhoi'r cyfle i Aelodau siarad a gwneud sylwadau ar yr eitem.

Os oes unrhyw gais sydd wedi bod yn destun Panel Arolygiad Safle cyn y Pwyllgor, bydd y Cadeirydd fel arfer yn gwahodd yr Aelodau hynny a fynychodd, yn cynnwys yr Aelod Lleol, i siarad gyntaf.

Gyda phob cais arall, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r Aelod(au) Lleol siarad gyntaf, os ydynt yn dymuno.

Mae Aelodau fel arfer yn cael eu cyfyngu i uchafswm o bum munud o amser siarad, a bydd y Cadeirydd yn cynnal y ddadl yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Unwaith y bydd Aelod wedi siarad, ni ddylent siarad eto oni bai bod arnynt eisiau eglurhad ar bwyntiau sy'n codi yn y ddadl, ac yna dim ond wedi i bob Aelod arall gael y cyfle i siarad, gyda chytundeb y Cadeirydd.

Ar ddiwedd dadl yr Aelodau, bydd y Cadeirydd yn gofyn i Swyddogion ymateb fel y bo'n briodol i gwestiynau a phwyntiau a godwyd, yn cynnwys cyngor ar unrhyw benderfyniad sy'n groes i argymhelliad.

Cyn mynd at y bleidlais, bydd y Cadeirydd y gwahodd neu'n gofyn am eglurhad ar gynigwyr ac eilwyr dros neu yn erbyn argymhelliad y Swyddog neu unrhyw benderfyniadau eraill yn cynnwys newidiadau neu geisiadau. Lle bo cynnig yn groes i argymhelliad Swyddog, bydd y Cadeirydd yn ceisio eglurhad o'r rheswm/rhesymau cynllunio dros y cynnig hwnnw, er mwyn cofnodi hyn yng Nghofnodion y cyfarfod. Gall y Cadeirydd ofyn am sylwadau gan Swyddog Cyfreithiol a Chynllunio ar ddilysrwydd y rheswm/rhesymau a nodwyd.

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi pan fo'r ddadl wedi cau a bod y pleidleisio i ddilyn.

### **Y weithdrefn bleidleisio**

Cyn gofyn i Aelodau bleidleisio, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi pa benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, a sut y bydd y bleidlais yn digwydd. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o eglurhad am ddiwygiadau, sylwadau newydd neu ychwanegol a rhesymau dros wrthod, fel nad oes amwysedd ynghylch beth mae'r Pwyllgor yn pleidleisio o'i blaid neu yn ei erbyn.

Bydd y pleidleisio'n digwydd gyda'r Cadeirydd yn mynd o amgylch holl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio sy'n gymwys i bleidleisio yn gofyn iddynt ddweud ar lafar a ydynt yn pleidleisio 'Dros', 'yn Erbyn' neu'n 'Ymatal'. Bydd y pleidleisiau'n cael eu nodi a bydd y Cadeirydd wedyn yn cyhoeddi a yw'r cais wedi'i gymeradwyo neu ei wrthod.